OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 774 (Cy.64)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*16 Mawrth 2005*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 9(2) a (3) o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**1**), adrannau 23(2)(a), (f)(ii), (5), 26(1), (2), 59(2), (3), 104(4), Atodlen 2, paragraffau 12, 13, 14, Atodlen 4, paragraff 4(1), (2)(d), Atodlen 5, paragraff 7(1), (2)(g), ac Atodlen 6, paragraff 10(1) o Ddeddf Plant 1989(**2**) a chan adrannau 1(4), 16(2), 22(1), (2)(a) i (d), (f) i (j), (5)(a) a (c), (7)(a) i (h), (j), (8)(c), 25(1), 33, 34(1), 35, 77(2) ac 118(4) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**4**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 15(1)(e), ar ôl y geiriau "children's guardian or reporting officer", mewnosoder y geiriau "or Welsh family proceedings officer"(**5**).

(**1**) 1976 p.36. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol, a ddiffinnir yn adran 9(5) o Ddeddf 1976 fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr, a'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad Cymru yn gweithredu ar y cyd o ran Cymru a Lloegr.

(**2**) 1989 p.41. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1989 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd cynnwys Deddf 1989 yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (*gweler* erthygl 2(a) o Orchymyn 1999 ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)).

(**3**) 2000 p.14.

(**4**) 1983 O.S. Rhif 1964.

(**5**) Diffinnir "Welsh family proceedings officer" yn adran 35 o Ddeddf Plant 2004 (2004 p.31).